



Y PROSIECT

**CYFLEUSTER  
HYFFORDDI  
CYFANSAWDD**

Y CLEIENT

**AUK OPERATIONS  
LIMITED**

GWERTH Y CONTRACT

**£900K**  
Dylunio ac Adeiladu

## Y NOD

Dewiswyd Hollingsworth Ellery i wneud y gwaith gosod mewrol yn gyfatebol â manyleb lefel uchel mewn uned ddiwydiannol oedd yno'n barod.

Roedd y prosiect yn darparu cyfleuster hyfforddi a fydd yn cael ei rannu gyda labordai Prifysgol Glyndŵr a hyfforddiant arbenigol AUK ar gyfer adenydd cyfansawdd carbon.

Trefnwyd y manau hyfforddi gofynnol, yn rhai unigol a rhai a rennir, yn y ffordd orau i ffitio'r uned ddiwydiannol.

Yn ogystal â threfnu'r lle o fewn y cyfleuster, roedd gofyn i'r dylunwyr ateb gofynion y rheoliadau adeiladu a rhoi ystyriaeth i drosglwyddiad y cyfleuster hwn yn ôl pan ddaw'r brydles i ben.

I sicrhau bod y cyfleuster yn addas i'w bwrpas roedd yn rhaid i'r gwaith o ddatblygu dyluniad Hollingsworth Ellery sicrhau ymgysylltiad gyda'r rhanddeiliaid i gyd.





Hollingsworth Group Ltd  
St. Ives Way  
Engineer Park  
Sandycroft  
Sir y Fflint CH5 2QS

Ffôn: 01244 539922

Ffacs: 01244 538504

[www.hollingsworthgroup.co.uk](http://www.hollingsworthgroup.co.uk)

## Y DULL

Ar ôl gorffen dylunio'r cynllun mewnol yn derfynol a chael cymeradwyaeth iddo, gan gynnwys y gwaith dylunio mecanyddol a thrydanol cymhleth, cychwynnodd Hollingsworth Ellery adeiladu nifer o theatrau darlithio, cyfleusterau TG, lle bwyta a chyfleusterau toiled.

Wrth i'r prosiect ddatblygu dechreuodd y rhanddeiliaid ymddiried yn Hollingsworth Ellery ac, yn dilyn hynny, cymeradwywyd amrywiadau i'r cynllun ar gyfer gosod cynnwys y labordy a'r gweithdy hyfforddi technegol yn ogystal â lle parcio ceir ychwanegol.

Roedd yr amrywiadau'n cynnwys offer echdynnu hidlad carbon technoleg uchel, cyfryngau cyflwyno a chydlynu cyfleusterau sy'n dod i mewn ar ran AUK.

## Y CANLYNIADAU

Mae'r prosiect cyfan yn darparu cyfleuster hyfforddi modern i Brifysgol Glyndŵr ac AUK, ac ymddangosodd y seremoni agoriadol ar y teledu.

Cwblhawyd y prosiect o fewn yr amser gofynnol a'r gyllideb ofynnol. Ers hynny, mae'r cyfleuster wedi ennill gwobrau ac mae wedi rhoi lle i urddasolion sy'n ymweld o wledydd tramor.

## CRYNODEB

Daeth Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru i agor y Ganolfan Hyfforddiant a Datblygiad Cyfansawdd Uwch ym Mrychdyn a fydd yn helpu miloedd o brentisiaid a gweithwyr AUK ym Mhrydain i ddatblygu a gwella eu sgiliau gweithgynhyrchu cyfansawdd.

Meddai Ivan Davies, Rheolwr Prosiect AUK 'Dyma brosiect llwyddiannus arall gan HE. Mae'r adborth a'r sylwadau a gafwyd gan reolwyr uwch AUK ac ymwelwyr o lywodraeth Cymru wedi bod yn rhagorol ac maent oll wrth eu boddau bod ganddynt gysylltiad â chyfleuster o'r fath'